Campus Services
Gwasanaethau'r Campws

# GWASANAETHAU'R PRESWYLFEYDD - Sesiwn 2023/2024

## GWYBODAETH AM SUT I GYRRAEDD – Neuadd Gordon, Llys Senghennydd, Neuadd Senghennydd a Thai/Fflatiau'r Myfyrwyr (Y Pentref)

### Pob myfyriwr:

**Ble dylwn i gasglu fy allwedd?**

Derbynfa Llys Senghennydd; gweler y map drosodd neu defnyddiwch CF24 4DS yn eich teclyn llywio lloeren.

**Pryd dylwn i gasglu fy allwedd?**

10am hyd 4pm ar ddiwrnod cyntaf Cyfnod eich Contract (fel y nodir yn y ddogfen Derbyn y Contract ar-lein – Materion Allweddol)

**Os na fyddwch chi'n casglu eich allwedd erbyn 4pm, efallai bydd eich llety neilltuedig yn cael ei dynnu'n ôl ac yn cael ei gynnig i fyfyriwr arall.**

Ebostiwch: residences@caerdydd.ac.uk os oes gennych chi ymholiadau am statws eich cais.

### Cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus:

**Os byddwch chi'n cyrraedd gorsaf reilffordd Caerdydd Ganolog, neu ar fws:**

**Tacsi** – Gallwch chi gael gafael ar dacsi yn rhwydd o'r safle tacsis y tu allan i orsaf reilffordd Caerdydd Ganolog. Os byddwch chi'n cyrraedd ar fws ac yn methu dod o hyd i dacsi, 02920 333 333 yw rhif un o'r cwmnïau tacsis lleol. Bydd y rhain yn costio oddeutu £10, gan ddibynnu ar y pellter a faint o fagiau sydd gennych.

**Bws** – Mae sawl llwybr bws sy'n rhedeg o ganol dinas Caerdydd ac yn stopio ger y preswylfeydd. I gael rhagor o wybodaeth ac amserlenni, ewch i'r dudalen we ganlynol: http://www.cardiffbus.com/

### A oes maes parcio ar gael?

**Llys Senghennydd/Neuadd Senghennydd/Neuadd Gordon**

**Pwysig: Mae trefniadau gorfodi ar waith ym meysydd parcio'r Brifysgol.**

- Mae cyfleusterau parcio dros dro ar y safle ar gyfer dadlwytho
- Wrth gasglu eich allwedd, bydd gofyn ichi roi manylion cofrestru eich car i'r dderbynfa.
- Yn anffodus, dim ond 45 munud y gallwn ei ganiatáu ichi ddadlwytho eich cerbyd oherwydd cyfyngiadau parcio
- Ar ôl dadlwytho, gallwch chi barcio yn y maes parcio aml-lawr cyhoeddus ym Mhlas Dumfries (gweler y map drosodd))

**Tai/Fflatiau'r Myfyrwyr**


- Yn anffodus nid oes lleoedd parcio sy'n perthyn i'r Brifysgol. Mae nifer gyfyngedig o leoedd parcio ar y stryd, ac mae wardeniaid traffig yn patrolio'r stryd yn rheolaidd felly dylech chi ddadlwytho mor gyflym â phosibl a gwneud yn siŵr bod rhywun yn aros gyda'r cerbyd bob amser wrth ichi ddadlwytho

Campus Services

Gwasanaethau'r Campws

- Ar ôl dadlwytho, gallwch chi barcio yn y maes parcio aml-lawr cyhoeddus ym Mhlas Dumfries (gweler y map drosodd))

Llys Senghennydd – cyfeirnod ar y map 47
Neuadd Senghennydd - cyfeirnod ar y map 46
Neuadd Gordon - cyfeirnod ar y map 43




**Neuadd Gordon**

| |
|---|
| Ar ôl casglu eich allwedd o Lys Senghennydd, trowch i'r dde i Ffordd Senghennydd ac ar ddiwedd y ffordd, trowch i'r chwith i Heol Salisbury |
| Cymerwch y troad cyntaf ar y dde i Heol Lowther, sy'n mynd o dan bont |
| Trowch i'r dde ar ddiwedd y ffordd, i Heol Richmond |
| Dilynwch y ffordd am oddeutu 200 metr |
| Wrth i'r ffordd wyro i'r dde, byddwch chi'n gweld ysgol ar y chwith |
| Cymerwch y troad nesaf i'r dde, i Heol Gordon |
| Mae Neuadd Gordon ar yr ochr dde |

Campus Services

Gwasanaethau'r Campws

## MAP O'R SAFLE

